# CEFFYL PREN

## Ar Garlam



MEWN HELICOPTER, TEITHIO GYDA CEFFYL PREN, RHAN I gan TIM LEWIS

Roedd yr wythnosau cyn cyngerdd 'Roc ar y Taf', mis Ionawr eleni, yn rai brysur dros ben.

Ymddangosiadau ar radio a theledu a chyfweliadau gyda'r wasg. Roedd trefnu hysbysrwydd at Roc ar y Taf yn bwysig iawn er mwyn sicrhau fod Neuadd Dewi Sant dan ei sang ar y noson fawr.

Cawsom alwad ffon ar ddechrau'r flwyddyn gan Cpt. Julian Verity, o gwmni hofrenyddion 'Veritair' ym maes awyr Rhoose, yn gofyn os oeddem ni eisiau help gyda'r tasc enfawr o 'promotio'r' noson.

Mae Cpt. Verity yn gefnogol o'r iaith ac roedd o'n awyddus i helpu ni gyda'r hysbysrwydd at y noson gyntaf o roc Cymraeg yn Neuadd Dewi Sant. Felly roedd o'n cynnig hofrenydd am bore cyfan - yn rhad ac am ddim!

Rhaid oedd meddwl nawr am y ffordd orau o ddefnyddio'r hofrenydd. Ein syniad cyntaf oedd glanio'r helicopter tu fas i'r BBC, ond wedi ail-meddwl, penderfynnwyd mai'r peth callaf byddai glanio yn un o ysgolion y cylch.

Erbyn hyn roedd y cath mas o'r cwd ac roedd y rhaglen radio, Cadw Reiat wedi cyhoeddi y byddai 'Ceffyl Pren yn glanio ar faes ryw ysgol yng Nghymru ar ddydd Iau'.

Cawsom ganiatad prifathro Ysgol Gyfun Rhydfelen i lanio yno - ar y amod fod Awdurdod Addysg Sir Forgannwg Ganol yn cytuno.

Roedd Gareth ar y ffon i'r Awdurdod mewn chwinciad, a'r awyrgylch yn Swyddfa Ceffyl Pren yn drydanol wrth inni ddisgwyl ateb. Ond roedd gan Gareth gwyneb hir wrth roi'r ffon i lawr. Yn wir, roedd yna llond swyddfa o wynebau hir wrth i Gareth restri amodau Cyngor Sir Forgannwg Ganol:

i) Rhaid talu £400 o gostau glanio.

ii) Rhaid codi ffens uchel rhwng y man glanio a'r disgyblion.

iii) Rhaid rhybuddio pawb sy'n berchen ar anifail anwes ac yn byw o fewn milltir i'r ysgol am y digwyddiad.

iv) Rhaid trefnu fod yna ambiwlans ac injian dan wrth law yn ystod yr ymweliad.




Dyna diwedd ar y cynlluniau i lansio yn Ysgol Rhydfelen.

Y dewis nesaf oedd Ysgol Gyfun Glantag yng Ngogledd Llandaf. 'Doedd dim problem gyda'r Awdurdod Addysg yn Ne Morgannwg ac roedd prifathro'r ysgol yn fodlon i ni lanio.


Bore Iau, a'r amser wedi wedi hedfan, gyda Tosh, Gareth, Aled Glynne (gohebydd newyddion Radio Cymru), a finne ar y ffordd i faes awyr Rhoose.

Cawn hanes 'Y Ddraig yn Hedfan' yn y rhifyn nesa o 'Telegram'.

TIM LEWIS



# picato



# picato

PICATO yw'r math blaenllaw mewn tannau cyffredin, a hwy hefyd yw noddwyr Ceffyl Pren. Cafodd y cwmni ei ffurfio ym 1938 gan Mr Michael Stein.

Mae'r grefft mewn bod heddiw gan fod ei fab, Alfred a'i deulu yn dal i wneud tannau yn union run fath.

## TRADITION

**picato** is the leading brand of General Music Strings Limited, a Company formed in the U.K. in 1938 by Mr. Michael Stein a Master String Maker who perfected his craft in the Viennese String Workshops during the 20's and 30's.
This tradition is still very much in evidence today, the string makers craft being carried on by Michael's son Alfred and his family who ensure that all **picato** strings, whether for violin or electric guitar, are made with the care and precision that musicians need to obtain the ultimate response from their instruments.

## TECHNOLOGY

All **picato** strings are manufactured from the best materials available, whether it's the finest quality gut for the violin family of instruments or the latest "Hot" Metal alloys for the screaming electric guitar and funky bass guitar sounds demanded by todays leading instrumentalists - machinery too is of the most modern specifications, giving consistency of quality in response, feel and overall performance.
The string craftsmen at **picato** are always striving to achieve perfection and are constantly experimenting with new materials and ideas to ensure that their products are always amongst the best to be found anywhere in the world today.

## TONALITY

**picato** strings bring out the ultimate tonal character of all instruments fitted with them as is testified by the many musicians who play the strings - from the worlds top Symphony Orchestras to the leading exponents of todays Rock Music.
All materials, gut, nylon, through acoustic guitar bronze alloys to fine nickel wrap for electric guitar, are gauged for accuracy prior to the manufacturing process to ensure tonal perfection in the finished string.

# pica



# cato




DELAWARE
77

DEREC BROWN A'R RACARACWYR

| | | | |
|---|---|---|---|
| Y BAND: | Derec Brown | - | Llais |
| | Derek Harries | - | Gitar |
| | Mike Lloyd Jones | - | Gitar flaen |
| | Dafydd Saer | - | Bâs |
| | Chris Brazier | - | Drymiau |

| | | |
|---|---|---|
| Dechrau ymarfer | - | Nadolig 1981 |
| Gig Cyntaf | - | Top Rank, Caerdydd<br>Noson cyn gêm rygbi Cymru v Alban<br>Mawrth 3, 1982. |

Penderfynnu gwneud sengl ar unwaith. Recordio 'Bois y Band' a 'Mae Nghariad yn Hoffi Roc a Rol' yn Stwdio Loco yn mis Mai, a'i rhyddhau ar Fflach yn Eisteddfod Genedleathol, Abertawe.

Gigs yn araf ar y dechrau, 'Bois y Band' un profi'n llwyddiannus mewn dawnsfeydd, canu yn Nantgaredig, Corwen, a Chaerdydd. Canu tair gwaith - Steddfod Abertawe.

Gigs yn llifo mewn ar ôl y Steddfod - Blaendyffryn, Pier Aberystwyth, Penybont, Top Rank Caerdydd(eto), Dicsi Rhyl, Ysgol Glan Taf Caerdydd, Blaendyff(eto), a Rhydfelen cyn y Nadolig.

Fideos i Sêr (Bois y Band), Yr Awr Fawr (Cerdded Rownd y Dre a Y Ferch o'r Wlad).

Dechrau recordio LP 'Cerdded Rownd y Dre yn stiwdio Sain adeg y Pasg treulio 3 penwythnos yn gwneud 'overdubs' ac 1 penwythnos yn cymysgu. LP yn dod allan Steddfod Llangefni 1983.

Mehefin Chris Brazier yn gadael, Paul Westwell yn ymuno.

Fideos - Trwbwrt, Dwi ddim yn Poeni.
Ymddangos ar Sêr, Rhaglen Hywel Gwynfryn, Edrych Trwy y Camerau, Taro Tant!
Ebrill 1984 - Dafydd Saer yn gadael y band, Wyn Jones yn ymuno.

Mae nifer o aelodau eraill wedi chwarae yn y Racaracwyr, oherwydd prysurdeb yr aelodau sefydlog. Dyma nhw - Burke Shelley (Budgie) i bas, Dave Dearnaley i gitar, Ian Lawrence i gitar, Len Jones i gitar, Tich Gwilym i gitar, Brian Griffiths i drymiau, Ken Pegler i drymiau, Rob Ford i piano.

Y dyfodol - cadw mlaen i chwarae gymaint ag y gallwn.
Gigs - 3 yn steddfod Llambed.
Record - recordio dros yr haf a chael rhywbeth ar y farchnad erbyn y Nadolig.
Caneuon newydd - 'Can Jivin Jenkins', 'HaHaHa', 'Caru'n Gilydd', 'Cymru Fydd', 'Twr Ifori', 'Pam', 'Dim Neb',
Dal i sgrefennu nifer o rai newydd.



FFOADUR

Maen a mor yw seiliau bywyd
Nerthoedd anatod i drechu arswydd
Elfennau grymus o gadernid
Byth bythol ac eto heddiw'n newid

Paid a gwadu'r cyfrifoldeb
Dibynnwn arnat ti
Thomas Covenant, gwahanglwyf
Na fradycha ni
Estron yn y deurnas yma
Bychan oedd dy fyd
Cofia eiriau y cardotyn:
'Gwna yr hyn sy'n iawn, o hyd'.

Aur gwyn, gwyrthiol, gwallgof
Ateb i'n breuddwydion
Bonyn cyfraith, angof
Yn nwylo ein gelyniom

Ffoadur, mae 'na arsyd ar y awel heno
Ffoadur, mae hi'n oes ar y mynydd heno
Gwyn yw'r aur sy'n llosgi'n llachar
O8r fodrwy ar dy law
Mae'r arglwydd 'Foul' yn dy erlid
Trwy y nos a'r glaw.

Wedi'r cyngerdd yn Neuadd Wills, ym Mriste, yn ddiweddar fe ddaeth llawer o'r gynulleidfa atom i holi am y gan FFOADUR.

Roeddent wedi clywed yn y cyflwyniad mai llyfrau Stephen Donaldson am Thomas Covenant oedd yr ysbrydoliaeth. Roedd rhai ohonynt wedi ddarllen llyfrau'r awdur hyn ac roedd erill yn awyddus i wybod mwy.

Daw Stephen Donaldson o America ac fe ddaeth yn enwog wedi cyhoeddi 'Lord Foul's Bane': nofel cyntaf y gyfres 'The Chronicles of Thomas Covenant The Unbeliever'.

Yn y 'Chronicles' fe adroddir hanes y gwahanglwyf alltudedd, Thomas Covenant, sy'n cael ei herlid gan tugolion pentref cyfagos. Yr unig un nod yw'n ei ofni ydi cardotyn. Mae'r hen ddyn yn dweud: 'Be true. You need not fail'. (sef: 'Cofia eiriau y cardotyn: 'Gwna yr hyn sy'n cawn o hyd').

Un diwrnod mae Covenant yn cael ei anafu mewn damwain car ac mae o'n deffro mewn Tîr arallfydol (The Land) sy'n cael ei teurnasu gan yr Arglwydd Foul.

Mae Foul y berydach nac erioed gan ei fod wedi dwyn y Bonyn Cyfraith oddi wrth yr Arglwyddi Da. Gan fod gan Covenant yr 'Wild Magic' (sy'n fynnu o'r aur gwyn yn ei modrwy) mae'r Arglwyddi Da a Cewri'r Tîr yn dibynnu ar Covenant i adennill y Bonyn.

Wrth i Covenant teithio trwy'r Tîr mae un o'i cymdogion, Foamfollower, yn canu 'Can y Cewri':

'Stone and Sea are deep in life,
two unalterable symbols of the world:
permanence at rest, and permanence in motion;
participants in the Power that remains'.

sef:

'Maen a môr yw seiliau bywyd
Nerthoedd anabod i drechu arswyd
Elfennau grymus o gadernid
Byth bythol, ac eto, heddiw'n newid'



Rhaid prynnu'r llyfr i ddarganfod beth sy'n digwydd i Covenant yn y Tîr. Mae'r cyntaf yn y 'Chronicles': 'Lord Foul's Bane' gan Stephen Donaldson ar gael mewn clawr meddal (438 o dudalennau!) gan Fontana/Collins.


CEFFYL PREN